O dud. 16

*Cymreig.* Rhaid mai cyfrol yr Albanwr a roes y teitl hwn i awduron y nofel. Mae'n wir dweud hefyd y buasai cymharu *Auld Lichts Idylls*, Barri, a *Where Eden's Tongue is Spoken Still*, Elwyn, yn ddadlennol iawn.

* * * *

DWG HYN ni at y cyfeiriadau lleol sydd yn y nofelau hyn. 'Roedd gan Watcyn Wyn ddiddordeb arbennig yn nhraddodiadau ac arferion ei ardal. Codwyd ef ym Mrynaman pan oedd yr ardal honno'n para'n wledig, a nifer o hen arferion fel y cwrwau bach a'r Fari Lwyd yn ei bri.

Gwyddys hefyd fod gan Elwyn yntau ddiddordeb mewn hanes lleol, a'i dad a'i dad-cu yn hen frodorion o bentref Llandybie, a chanddynt lawer o wybodaeth.

'Ychydig o flynyddoedd yn ôl,' meddai Elwyn yn ei ragymadrodd i *Nansi, Merch y Pregethwr Dall*, 'penderfynodd Watcyn Wyn a minnau wneud ymgais i gyhoeddi chwe nofel Gymreig, a gyda'r amcan o ddisgrifio ynddynt fywyd cymdeithasol a chrefyddol ein gwlad'.

Eithr dwy o'r nofelau hyn a gyhoeddwyd gan i Watcyn farw cyn cwblhau'r gweddill. Ac 'roedd darlunio arferion a thraddodiadau'r ardal yn nod pendant gan y ddau. Ceir disgrifiad manwl, er enghraifft, o 'briodas geffylau' yn *Irfon Meredydd.* Yn *Ifor Owain*, wedyn ceir disgrifiad o'r bwytawr pechod yn ymweld â thŷ galar i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ceisiais bwyso a mesur y dystiolaeth ynglŷn â'r arfer honedig o fwyta pechod yn nyffryn Aman a'r cylch mewn man arall, a gwelodd Dr Gomer M. Roberts arwyddocâd arbennig yn nisgrifiad Elwyn o'r bwytawr fel y'i ceir yn y nofel hon. Ac mae'n ddigon posib, wrth gwrs, i Elwyn gael y manylion am y ddefod gan ei dylwyth ef ei hun.

Prin y gellir disgrifio'r nofelau hyn fel nofelau hanesyddol. Mae *Ifor Owain*, er enghraifft, wedi ei hamseru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, ac er bod ynddi gyfeiriadau at gymeriadau hanesyddol fel William Wroth a Walter Cradock, ni ellir dweud bod y nofel yn dilyn digwyddiadau hanesyddol.

Y cyd-destun yn unig sy'n hanesyddol. Sentimentaliti yw eu prif nodwedd, ac ni ellir dweud bod un o'r cymeriadau yn argyhoeddi. Ac er bod y disgrifiadau o'r arferion a'r traddodiadau gwerin yn faith ac yn tueddu i dorri ar draws rhediad y nofelau, mae'n debyg mai yn y disgrifiadau hyn o fywyd gwerin y cyfnod cyn-ddiwydiannol y gorwedd pwysigrwydd nofelau Elwyn a Watcyn Wyn.

# MAXWELL ROBERTS yn cofnodi
# Cymraeg y beddau pell

TREF A sefydlwyd gan Gymry, o Sir Gaernarfon, oedd Caerdydd yn Unol Daleithiau America, ond am fod y 'Mason-Dixon Line' yn rhedeg trwy ei chanol yr oedd y rhan ogleddol ohoni ym Mhensylvania a'r rhan ddeheuol ym Maryland. O'r herwydd ailenwyd y rhan ogleddol yn Delta.

Yn Delta sefydlwyd capel Cymraeg ac o dro i dro, hyd y dydd heddiw, cynhelir gwasanaethau Cymraeg yno. Mae yno hefyd ddosbarth o bobl ifanc sy'n gwneud eu gorau i ddysgu'r iaith.

Ar ymweliad â Delta, aeth Prydwen, fy mhriod, a minnau am dro ar hyd ffordd gul, goediog ar gwr y dref gan ddod o hyd i hen fynwent Slatesville a darganfod yno gerrig beddau a wnaed o lechi. Wedi eu cerfio ar bob un ohonynt yr oedd llinellau o farddoniaeth a ddisgrifiai y Cymry a gladdwyd yno. Ni wyddom pwy oedd y beirdd ond y mae'n amlwg fod rhai yn englynwyr. Dyma'r hyn a ddarllensasom ar y cerrig beddau:

1. Er cof am John Tyson gynt o Landdeiniolen, Gogledd Cymru. Bu farw Mai 16, 1857 yn 52 mlwydd oed.

**Dirymwyd edeu'r einioes**
**Yn grwn gan yr hwn a'i rhoes.**

2. (Ac yna englynion am blant David a Jane Lloyd — gweler rhif 11)

Edward a fu farw Awst 1859 yn ddwy flwydd oed, a Margaret a fu farw Chwefror 1865 yn 4 mlwydd oed.

**Y ddau rosyn gwyn teg wedd — yn foreu**
**A fwriwyd i lygredd;**
**Dilys ail egyr eu delwedd,**
**A daw'n iach eu cyrff o'r bedd.**

3. A phlant James a Mary Williams:

Mary: Bu farw, Medi 4, 1859 yn un mlwydd a chwe mis oed, a David: Bu farw, Tachwedd 11, 1863 yn un mlwydd a dau fis oed.

**Mary o fyd y meirwon — a ddaw allan**
**Ar ddullwedd pen Seion,**
**A'i brawd ddaw yn ei llaw'n llon**
**O'r gweryd i fro'r goron.**

4. Er cof am Ellen, merch William a Mary Morris, gynt o Lanbedrog, Gogledd Cymru. Bu farw Rhagfyr 9, 1861 yn 15 mlwydd oed.

**Gorffwysaf yma'n dawel**
**Ymhlith y pryfaid man;**
**Cans Crist fy mrawd a dwymodd**
**Y gwely pridd o'm bla'n.**

**'Does yma son am ryfel**
**Na therfysg o un rhyw,**
**Ond pawb yn llechu'n dawel**
**Nes cenir utgorn Duw.**

5. Er cof am Elias Rowlands. Ymfudodd i'r wlad hon o Ffestiniog. Bu farw Gorffennaf 12, 1865 yn 36 mlwydd oed.

**Am enyd ni welir mo'no — cafodd**
**Ein cyfaill ei wysio**
**I lys uwch at luaws o**
**Nefolion sy'n hyf eilio.**

6. Er cof am William J. Jones. Bu farw, Hydref 29, 1871 yn 53 mlwydd a 5 mis oed.

**Fe dynnodd fywyd uniawn — hyd elor**
**Y daliodd yn ffyddlawn.**
**Gwr Duw oedd, a gair da iawn**
**Gafodd, fel Iesu gyflawn.**

7. Er cof am Evan Davies. Bu farw Mawrth 31 1874 yn 47 mlwydd oed. Hefyd Susanah, ei ferch. Bu farw Rhagfyr 17 1873 yn 1 flwydd a 5 mis oed.

**I aros hirnos; yr Iesu — suodd**
**Ei was yma i gysgu.**
**Hwn a gwyd, ef elo'n gu**
**Wedi'r nos, i deyrnasu.**

8. Er cof am Margaret, priod Griffith Williams. Bu farw Ebrill 20, 1875 yn 58 mlwydd oed.

**Fy mhriod hynod sy'n huno — yma,**
**Wiw myach ei cheisio.**
**Ataf ni ddychwel eto,**
**Gwael ei grym mewn gwely gro.**

9. Er cof am James Williams. Bu farw Gorffennaf 14 1878 yn 52 mlwydd oed.

**Gwiw wr yn llawn hawddgarwch — oedd (Williams**
**A ddaliwyd gan dristwch;**
**Ond er loes, noder ei lwch**
**Ag arwyddion gwir heddwch.**

**Wel heno caiff dawel hunedd — ai ben**
**Heb ei boenus lesgedd,**
**Gwyn fyd Iago yn ei fedd.**
**Yn hwn ni chaiff anhunedd.**

10.a) Er cof am Robert M. Evans. Bu farw Hydref 27 1881 yn 84 oed.

**I dueddau pur ddedwyddwch — yr aeth**
**Yr hen dad mewn heddwch**
**Ne' oleu ddianialwch**
**Yw ei le, ond yma ei lwch.**

b) A'i wraig, Mary. Bu farw 26 Tachwedd 1866 yn 72 mlwydd oed.

**Bu hon yn goron i'w gwr**
**A chredodd ei chreawdwr.**

11. Er cof am David Lloyd. Bu farw Tachwedd 4, 1885 yn 55 mlwydd a 6 mis oed.

**Hen gyfaill haedda'i gofio — hir dymor**
**Roed yma i hun,**
**Daw ryw fore'n gryf o'r gro**
**D. Lloyd annwyl fedd adeilad yno.**

12. Er cof am Magdalene, priod Griffith R. Thomas. Bu farw Medi 20 1892 yn 33 mlwydd oed.

**Geiriau segur a surion — ni luniodd**
**I flino'i chymdogion;**
**'Ie', a 'Nage', oedd ddigon**
**O eiriau call y wraig hon.**

13.a) Er cof am William M. Williams, Gynt o Ty'n y Maes, Sir Gaernarfon, G.C., Bu farw Ionawr 17, 1894, yn 64 mlwydd oed.

**Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd**
**Yw marwolaeth ei Saint ef.**

b) Er cof am Mary, gweddw W.M. Williams. Bu farw Ionawr 26, 1902 yn 68 mlwydd oed.

**Yr Arglwydd yw fy mugail**
**Ni bydd eisiau arnaf.**

14. Er cof am Hugh, mab Robert a Margaret Hughes. Bu farw Mehefin 9, 1861. Ganwyd Mawrth 6, 1850.

**Diau mai gwael flodeuyn,**
**Byr ei dwf a brau yw dyn.**

15. Er cof am Hugh Williams. Ymfudodd i'r wlad hon o Ffestiniog, G.C. Mawrth 1845. Bu farw Ebrill 6, 1865 yn 58 mlwydd oed.

**Mi welaf le mewn marwol glwy**
**I'r euog guddio'i ben,**
**Ac yno llechaf nes mynd trwy**
**Bob trallod is y nen.**

16. Er cof am Jane, Priod Thomas J. Thomas. Bu farw Tachwedd 24, 1880. Oed 32 mlwydd.

**Gostyngodd Efe fy nerth ar y ffordd,**
**Byrhaodd fy nyddiau.**

17. Er cof am Ellen, priod John D. Jones. Bu farw Chwefror 26, 1888. Oed 24 mlwydd a 6 mis.

**Ei haul a fachludodd**
**Tra yr oedd hi yn ddydd.**

18. Er cof am Willie, mab Ebenezer a Winifred Jones. Bu farw Ebrill 13, 1871. Oed 4 mlwydd.

**Fel blodeuyn y daw allan,**
**Ac y torir ef ymaeth.**

19. Er cof am Owen K. Thomas, gynt o Fethesda, Arfon. Bu farw Medi 8, 1883. Oed 56 mlwydd.

**Fy mhriod hynod sy'n huno — yma,**
**Wiw mwyach ei geisio.**
**Ataf ni ddychwel eto,**
**Gwael ei rym mewn gwely o ro.**

20. Er cof am Richard E. Jones, yr hwn a fu farw, Chwefror 5, 1876, yn 48 mlwydd oed.

**Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd,**
**Yw marwolaeth ei Saint Ef.**

**Cadd gysgod yma i gysgu — Mae'n gorwedd**
**Un garai yr Iesu,**
**Myn Ior i'w golun mor gu,**
**I'w fynwes daw i fyny.**

Arymweliad diweddarach eleni deuthum ar draws tri bedd cyfagos arall ac englyn ar bob carreg. Dyma'r arysgrifau:

Er cof am John Griffiths, mab mabwysiedig John & Elen Williams. Bu farw trwy ddamwain Ebrill 28, 1868 oed 20 ml.

**Torwyd iddeiddbren tiriawn — fe ledodd**
**Ei flodau hyfrydlawn,**
**Diangodd ei nodd cyn nawn**
**E dorwyd cyn bod aerawn.**

Er cof am Henry mab John & Elen Williams. Boddodd Gor 30 1870 yn 8ml. a 2 dd. oed

**Adre mewn diniweidrwydd — o'r anial**
**Arweiniwyd yn ebrwydd**
**Didawl y mae, a dedwydd,**
**Yn moli Ior yn wyth mlwydd.**

Er cof am Henry Williams, Nant y Graean gynt ger Bangor G.C. Bu farw trwy ddamwain Ionawr A.D. 1868 oed 51ml.

**Y gwir oracl ef a garai — Gair Ion**
**Yn gywir gyhoeddai**
**Ac i'w fedd mewn hedd ydd ai**
**A dir ei ofn a derfynai.**